Cyngor Sir CEREDIGION County Council

ADRODDIAD I'R:	Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu
DYDDIAD:	30.6.22
LLEOLIAD:	Siambr y Cyngor, Penmorfa
TEITL:	Partneriaeth Addysg Canolbarth Cymru – Cynllun Busnes
PWRPAS YR ADRODDIAD:	Er Gwybodaeth

RHESWM PAM BOD Y PWYLLGOR WEDI GOFYN AM Y WYBODAETH:

Diweddariad ar flaenoriaethau'r bartneriaeth addysg rhwng Powys a Cheredigion ar gyfer 2022-23

CEFNDIR:

Lluniwyd Partneriaeth Addysg Canolbarth Cymru rhwng Awdurdodau Lleol Powys a Cheredigion ym Medi 2021. Fe'i selir ar Femorandwm o Ddealltwriaeth rhwng y ddwy sir. Nodir yn y Memorandwm o Ddealltwriaeth bod y ddwy sir yn cyd-weithio ar faterion yn ymwneud â'r canlynol:

- Datblygiadau Cwricwlwm i Gymru
- Llwybrau Arweinyddiaeth
- Cymorth i Athrawon Newydd Gymhwyso a Gyrfa Gynnar
- Datblygiad proffesiynol Cynorthwy-wyr Dysgu
- Difreintedd Gwledig ac Ecwiti

Y SEFYLLFA AR HYN O BRYD:

Ym Medi 2021, a hithau ar ganol blwyddyn ariannol, fe gyflwynodd Powys a Cheredigion ddau gynllun busnes ar wahân i Lywodraeth Cymru. Cymeradwywyd y cynlluniau ac o ganlyniad dyrannwyd y Grant Gwella Ysgolion Rhanbarthol (RCSIG) i'r ddau Awdurdod Lleol.

Ym mis Mawrth 2022, cyflwynwyd Cynllun Busnes ar y cyd gan Barterniaeth Addysg Canolbarth Cymru ac fe'i gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru. Mae'r ddau Awdurdod Lleol yn parhau i dderbyn eu cyfran o'r Grant Gwella Ysgolion Rhanbarthol (RCSG).

	Oes Asesiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Os na, esboniwch pam
LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL:	***Crynodeb:***
	Hirdymor:
	Cydweithio:
	Cynnwys:
	Atal:
	Integreiddio:

ARGYMHELLION:

Cymeradwyo Cynllun Busnes Partneriaeth Addysg Canolbarth Cymru ar gyfer 2022-23

RHESWM DROS YR ARGYMHELLION:

Gweithredu'r blaenoriaethau yng Nghynllun Busnes 2022-23

Enw Cyswllt:	Meinir Ebbsworth
Swydd:	Prif Swyddog Addysg
Dyddiad yr Adroddiad:	6.6.22
Acronymau:	
	RCSIG (Regional Consortium School Improvement Grant)